BELLTOWNPOWER

10 Victoria Street, Bristol BS1 1BN
(+44) (0)117 303 5217

**Diweddariad Hyb Ynni Gwynt Waun Maenllwyd** Awst 2024

I bwy y gallai fod yn ymwneud â hi,

Ym mis Mehefin 2023, estynnon ni wahoddiad i chi ddod i'n digwyddiad ymgynghori cyhoeddus, anstatudol cyntaf ar gyfer Hyb Ynni Gwynt Waun Maenllwyd. Yn dilyn ein cylchlythyr fis Ionawr eleni, pwrpas y llythyr hwn yw rhoi diweddariad pellach i chi am hynt ein prosiect a'i amseriadau.

**Crynodeb o'r Prosiect:** Mae Waun Maenllwyd tua 3.5km i gyfeiriad y de-ddwyrain o Landdewi Brefi yng Ngheredigion (gweler y map ynghlwm). Mae'r safle'n cynnwys coedwig a reolir yn fasnachol gydag ychydig o rostiroedd agored a ddefnyddir at ddiben pori defaid

Mae'r rhan fwyaf o safle Waun Maenllwyd yn cwympo i Ardal 6 yr Ardaloedd a Aseswyd o Flaen Llaw (PAA) a ddiffiniwyd yn Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040. Golyga hyn fod Llywodraeth Cymru wedi 'modelu effaith debygol [tyrbinau] ar y dirwedd ac wedi canfod eu bod yn gallu hwyluso datblygiad mewn ffordd dderbyniol' (Polisi 17).

Mae cynllun y tyrbinau wrthi'n cael ei adolygu o hyd wrth i ni dderbyn mwy o adborth a data tirfesur, ond mae'n bosib y bydd hyd at 6 thyrbin gyda brigau sy'n cyrraedd uchder o 230m a'r gallu i gynhyrchu 25.2 megawat (MW). Byddai hynny'n ddigon o ynni glân i bweru 20,000 o gartrefi bob blwyddyn, sy'n gyfwerth â dau draean o gartrefi Ceredigion. Byddai'n arbed 1.2 miliwn o dunelli metrig o garbon deuocsid dros gyfnod oes o 40 mlynedd.


**Cysylltiad â'r Grid:** Byddai Waun Maenllwyd yn cysylltu â'r rhwydwaith trydan lleol yn Llanbedr Pont Steffan drwy linell uwchben 33kV newydd sbon, a fyddai'n defnyddio polion pren fel y rhai sydd eisoes yn yr ardal. Nid oes gennym ni gynlluniau i godi peilonau mawr fel rhan o'r prosiect hwn. Byddai'r llwybr hwn yn cael ei gynllunio gan y Dosbarthiad Trydan y Grid Cenedlaethol a byddai'n destun ei broses cais am ganiatâd cynllunio Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS) ei hun, a fyddai'n cynnwys ymgynghoriadau cyhoeddus cyn cyflwyno cais.

**Arolygon cynllunio a chynllunio safle:** Mae ymgynghorwyr arbenigol yn cynnal arolygon a dadansoddiadau bwrdd gwaith helaeth ar gyfer yr ystyriaethau amgylcheddol amrywiol sy'n ofynnol er mwyn paratoi ein cais cynllunio, gan gynnwys, heb fod yn gyfyngedig i, effaith weledol, ecoleg, adareg, hydroleg, mawn, treftadaeth ddiwylliannol, cysgodion symudol a sŵn. Mae'r wybodaeth werthfawr hon, ynghyd â'r adborth rydym ni wedi'i dderbyn gan bobl a rhanddeiliaid lleol hyd yma, yn ein galluogi ni i gynllunio o amgylch cyfyngiadau amgylcheddol a sicrhau bod y cynllun terfynol yn lleihau effeithiau posib. Mae rhagor o wybodaeth am y gwaith rydym ni wedi bod yn ei wneud ar gael ar wefan y prosiect – www.waunmaenllwyd.com

**Mynediad:** Rydym yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid ar y mynediad o'r briffordd gyhoeddus ym Mhumsaint, wrth i ni gwblhau ystyriaethau peirianneg ac arolygon. Bydd rhagor o fanylion ar gael unwaith y bydd y llwybr wedi'i benderfynu'n derfynol.

**Llinell amser y Prosiect:** Cyn cyflwyno cais cynllunio ac Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (EIA) i Benderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW) yn ddiweddarach eleni, bydd gan breswylwyr lleol y cyfle i adolygu ein cais cynllunio drafft yn ystod cyfnod o ymgynghoriad statudol 6 wythnos. Ar hyn o bryd, rydym ni'n gobeithio y cynhelir y digwyddiad hwn yn ystod yr haf. Bydd hyn yn cynnwys digwyddiadau arddangos pellach i rannu'r cynlluniau a adolygwyd, gan ystyried yr adborth a dderbyniwyd hyd yma.

Yn anffodus, rydym wedi wynebu rhywfaint o oedi annisgwyl eleni. O ganlyniad, rydym yn awr yn rhagweld y byddwn yn cyflwyno ein cais cynllunio yn hydref 2025, ac y bydd ein cyfnod PAC ac arddangosfeydd cyhoeddus yng Ngwanwyn/Haf 2025; sef tua 9 mis yn hwyrach nag y cynlluniwyd gynt. Byddwn yn cysylltu â chi eto cyn lansio cam nesaf yr ymgynghoriad i roi manylion i chi am ein digwyddiadau ac ymhle i gael rhagor o wybodaeth.




*Mae'r amserlenni uchod yn ddangosol a gallant newid / The above timescales are indicative and subject to change.*

**Cynnig Cymunedol:** Mae Belltown Power yn credu'n gryf y dylai prosiectau ynni adnewyddadwy fod o fudd i'r cymunedau lleol sy'n eu cynnal. Rydym yn cynnig swm penodol o £5,000 y megawat y flwyddyn i'r gymuned am 40 mlynedd amcangyfrifedig oes weithredol y prosiect. Gyda chapasiti o hyd at 25.2MW, mae hyn yn cyfateb i tua £126,000 y flwyddyn, neu ychydig dros £5miliwn i gyd dros oes ddisgwyliedig y prosiect. Mae'r incwm yn cael ei warantu bob blwyddyn o'r adeg pan fydd y tyrbinau'n dechrau gweithredu ac mae'n gysylltiedig â mynegai felly bydd hefyd yn codi gyda chwyddiant.

Yn ogystal, mae Belltown Power yn cynnig maint materol o berchnogaeth ar y prosiect (o leiaf 15%) i'r gymuned leol. O hyn, mae Belltown wedi ymrwymo i roi 1% o'r ecwiti yn y prosiect i'r gymuned leol; byddai 4% arall ar gael i'w brynu am gost (a ddylai gael ei ddisgowntio'n sylweddol o gymharu â gwerth y farchnad), a byddai perchnogaeth ychwanegol ar gael am bris y farchnad pe dymunir.

O'r ymgynghoriadau cyntaf y llynedd, yr awgrym mwyaf poblogaidd ar gyfer defnyddio'r Cynnig Cymunedol oedd fel cymorth gyda biliau trydan. Rydym felly wedi nodi Cynllun Gostyngiad Trydan (EDS) posibl, a fyddai'n cynnig gostyngiadau blynyddol sefydlog i filiau trydan cartrefi a busnesau lleol sy'n agos at y tyrbinau arfaethedig, tra hefyd yn sicrhau bod arian ar gael o hyd i gefnogi prosiectau a mentrau lleol. Rydym yn awyddus i glywed unrhyw adborth neu syniadau pellach am yr hyn y gellid defnyddio'r arian ar ei gyfer. Rydym yn eich annog i naill ai gysylltu â ni gan ddefnyddio'r manylion a amlinellir isod neu estyn allan i'ch Cyngor Cymuned lleol a all rannu eich syniadau gyda ni.

**Ymgynghoriad ac Adborth Cyhoeddus:** Ers y digwyddiadau ymgynghori cyntaf rydym wedi bod mewn cysylltiad â'r Cynghorau Cymuned a Sir, Cynghorwyr Wardiau, Aelodau o Senedd Cymru ac Aelodau Seneddol y DU yn yr ardal leol, i roi gwybodaeth iddynt am Waun Maenllwyd ac i glywed eu hadborth a'u cyfraniad i'n cynigion am y Cynnig i'r Gymuned. Rydym wedi cael llawer o sgyrsiau diddorol a chynhyrchiol, ac rydym yn edrych ymlaen at barhau i weithio gyda'ch cynrychiolwyr cymunedol i sicrhau'r buddion mwyaf i'r ardal leol.

Am wybodaeth fanylach ac atebion i'r cwestiynau cyffredin am y prosiect, gweler ein gwefan yn www.waunmaenllwd.com. Mae croeso i chi gysylltu â ni gan ddefnyddio'r manylion a amlinellir isod os oes unrhyw beth yr hoffech ei drafod.


**Tîm Prosiect Waun Maenllwyd**
Belltown Power UK
waunmaenllwyd@belltownpower.com
10 Victoria Street, Bristol, BS1 6BN